# Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien
Newyddlen

Mawrth 2018

**Helo.....**
Rydyn ni wedi bod yn brysur gyda'n gwaith yng nghronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien dros fisoedd y gaeaf. Mae ein prosiect i adfer y cronfeydd i ddefnydd wedi parhau i ddatblygu, a gwelwyd llawer o weithgarwch ar y safle'n ddiweddar.

Yn y cylchlythyr hwn, mae rhagor o wybodaeth am y gwaith a wnaed ac am y gwaith sydd ar y gweill dros y misoedd nesaf. Gobeithio y bydd hyn o ddefnydd i chi.

## Draenio cronfa ddŵr Llanisien

Rydyn ni wedi bod yn draenio cronfa ddŵr Llanisien ers yr hydref fel y gallwn glirio'r llystyfiant sydd wedi bod yn tyfu o dan y dŵr mewn blynyddoedd diweddar er mwyn cyrraedd gwely'r gronfa.

Roedd angen i ni wneud hyn er mwyn dilysu cyflwr y pibellau danddaear gan ddefnyddio arolygon CCTV, a thrwsio wyneb cerrig yr arglawdd.



*Cronfa ddŵr Llanisien ar 22 Chwefror: bron yn wag*

## Achub pysgod

Wrth ddraenio'r gronfa yn Llanisien, cymerwyd gofal i sicrhau bod yr holl bysgod wedi cael eu hachub mewn ffordd briodol a'u rhyddhau i gronfa ddŵr Llys-faen.



*Arbenigydd achub pysgod o APEM*

Ym mis Chwefror, daeth tîm o arbenigwyr o APEM - ymgynghoraeth amgylcheddol annibynnol blaenllaw - i ymweld â'r safle i ddal yr holl bysgod o'r gronfa, sef crethyll yn bennaf, heb iddynt ddioddef, gan ddefnyddio'r technegau arolygu diweddaraf fel pysgota trydanol.



*Achub pysgod wrth i lefelau'r gronfa ddŵr ddisgyn*



lisvaneandllanishen@dwrcymru.com
0800 052 0130 dwrcymru.com

# Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien

## Newyddlen

Mawrth 2018

### Tŷ'r pwmp

Dymchwelwyd adeilad un o'r hen orsafoedd pwmpio ar lan y gronfa’n ddiweddar am ei fod yn beryglus ac wedi mynd â'i ben iddo. Sicrhawyd nad oedd unrhyw ystlumod na bywyd gwyllt yn yr adeilad cyn ei ddymchwel, a chymerodd y broses dridiau.



*Dymchwel tŷ'r pwmp*

Roedd hen injan disel yn yr hen orsaf bwmpio. Mae'n debygol y byddai wedi bod yno ers dechrau'r 1950au, a byddai wedi pwmpio dŵr o gronfa ddŵr Llanisien i rannau eraill o Gaerdydd. Rydyn ni'n bwriadu adfer yr injan, a'i arddangos ar waith yn yr Amgueddfa Pŵer Tân Mewnol mawr ei bri ger Aberteifi yn y gorllewin.



*Yr injan*

### Ecoleg

Rydyn ni'n cydweithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru ac arbenigwyr ecolegol i sicrhau ein bod ni'n amddiffyn bywyd gwyllt gwerthfawr y safle yn ystod ein gwaith.

Rydyn ni wedi bod yn clirio rhai o'r prysgwydd ar hyd y llwybr rydyn ni'n bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni ychydig o waith ar y pibellau dŵr yn nolydd Nant Fawr, a chafodd y coed a'r prysgwydd eu clirio ymhell cyn dechrau tymor nythu'r adar er mwyn osgoi effeithio ar unrhyw nythod posibl yn y gwanwyn.



*Clirio coed a phrysgwydd*

Mae'n bosibl y byddwch wedi sylwi ein bod wedi tocio'r clawdd ar hyd ein trac mynediad i Heol Rhyd-y-Pennau ym mis Chwefror.



*Tocio'r clawdd ar Heol Rhyd-y-Penau*

### Cyfleusterau’r dyfodol

Er ein bod ni’n brysur yn gweithio i adfer y cronfeydd, rydyn ni wrthi hefyd yn ystyried pa gyfleusterau y gallem eu cynnig yn y dyfodol. Ers i ni gymryd meddiant ar y safle, rydyn ni wedi bod yn glir ynghylch ein bwriad i’w agor a darparu cyfleusterau hamdden yno. Mae pobl leol a sefydliadau wedi bod yn cysylltu â ni â’u syniadau am weithgareddau ar y safle.
Mae yna gyfyngiadau o ran beth y gellir ei gynnig, ac nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau pendant hyd yn hyn, ond rydyn ni’n ymchwilio i’r potensial i ddarparu:

- Canolfan ymwelwyr â chaffi
- Gweithgareddau dŵr
- Prosiectau Amgylcheddol a Bioamrywiaeth

Dros y misoedd nesaf, byddwn ni o gwmpas y lle yn eich cymunedau, felly cewch gyfle i ddod i siarad â ni am ddyfodol y cyfleusterau. Os oes unrhyw syniadau, gwestiynau neu bryderon gennych, cysylltwch â Megan neu Gwyn ar 01443 452452 neu e-bostiwch lisvaneandllanishen@dwrcymru.com